# Rhagarweiniad

## 1. Aelodaeth

1.1 Darperir ar gyfer aelodaeth y Senedd dan gymal 30 o'r Cyfansoddiad.
1.2 Mae'r is-ddeddf hon yn diffinio etholiad, detholiad ac aelodaeth y Senedd.

# Ethol Cynrychiolwyr

## 2. Cynrychiolwyr Myfyrwyr

2.1 Bydd y Senedd yn cynnwys y cynrychiolwyr myfyrwyr canlynol:

- a. Swyddogion Llawn-amser
- b. Swyddogion Gwirfoddol (gan gynnwys Swyddogion Cyfadrannau)
- c. 2 rôl i gynrychioli Pwyllgor Gwaith UMCA.
- ch. 5 rôl i gynrychioli Clybiau Chwaraeon cysylltiedig
- d. 5 rôl i gynrychioli Cymdeithasau cysylltiedig
- dd. 1 Swydd i gynrychioli Prosiectau Gwirfoddol
- e. 2 Swydd i gynrychioli Cynrychiolwyr Academaidd

# Cyffredinol

## 3. Terfynu aelodaeth o'r Senedd

3.1 Bydd cynrychiolydd myfyrwyr yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd os yw:

- a. Yn ymddiswyddo fel cynrychiolydd;
- b. Yn cael ei ddad-ddethol fel cynrychiolydd gan y mudiad â'i dewisodd i fod yn gynrychiolydd;
- c. Yn peidio â bod yn aelod o'r mudiad â'i dewisodd i fod yn gynrychiolydd;
- ch. Yn peidio â bod yn Aelod o UMAber.

3.2 Daw aelodaeth o’r Senedd i ben ar ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd y mae cynrychiolydd wedi gwasanaethu.

## 4. Cyfyngiadau ar ddetholiad ac etholiad

4.1 Ni chaiff unrhyw un ei ddethol na’i ethol yn aelod o’r Senedd os yw’n weithiwr llawnamser yn UMAber (ac eithrio Swyddog Ymddiriedolwr), neu
4.2 Lle mae rhywun sydd eisoes yn aelod o’r Senedd yn cael ei ethol neu ei ddethol i unrhyw rôl arall a fyddai'n ei wneud yn gymwys i fod yn aelod o’r Senedd, caiff yr etholiad neu'r detholiad i'r ail rôl ei diystyru at ddibenion pleidleisio.
4.3 Mewn achos lle caiff unigolyn sy'n Aelod o’r Senedd ei benodi i swydd lawn-amser yn UMAber (ac eithrio yn rhinwedd cael ei ethol yn Swyddog Ymddiriedolwr) bydd yn peidio â bod yn Aelod o’r Senedd.
4.4 Yn yr adran hon, golyga cyfeiriad at rôl unrhyw rôl o fewn UMAber neu dan reolaeth UMAber; mae'n cynnwys swyddogion, ond nid yw'n cynnwys rôl sy'n ddibynnol ar gytundeb cyflogaeth.

## 5. Dehongliad

5.1 Yn yr Atodlen hon:

- "Aelod o UMAber" fydd yr ystyr a roddir i "Aelod" dan gymal 16 o'r Cyfansoddiad,
- Golyga "Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol" gyfarfod cyffredinol blynyddol UMAber, a gynhelir yn unol â chymal 28 o'r Cyfansoddiad,
- Ystyr "Aelod o'r Senedd" yw un o aelodau'r Senedd.